Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru
—
Wales Covid-19 Inquiry Special Purpose Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCovid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCovid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCovid@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCovid
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Brif Weinidog
Llywodraeth Cymru

31 Ionawr 2025

Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru

Annwyl Brif Weinidog,

Ar hyn o bryd, mae Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru ("y Pwyllgor") wrthi'n ystyried adroddiad Modiwl 1 ar wytnwch a pharodrwydd, Ymchwiliad COVID-19 Llywodraeth y DU. Fel rhan o'n gwaith rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, wedi cynnal digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac wedi comisiynu academyddion o Brifysgol Nottingham Trent i baratoi dadansoddiad bwlch o waith Modiwl 1.

Rydym yn y broses o ddefnyddio'r dystiolaeth hon – ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 – i nodi unrhyw fylchau posibl ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod y pandemig COVID-19 a ddylai fod yn destun archwiliad pellach.

Yn ein cyfarfod ar 27 Ionawr 2025, buom yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru yn fanwl. Rydym yn deall bod Fframwaith drafft Cymru Gydnerth yn cael ei adolygu i ystyried argymhellion adroddiad Modiwl 1, ac y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2025, ynghyd â'r cynllun cyflawni. Er mwyn cynorthwyo ein trafodaethau i nodi unrhyw fylchau posibl, a fyddech cystal â rhannu copi o'r fframwaith drafft â'r Pwyllgor yn gyfrinachol?

At hynny, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn deall pam na fydd datganiad arfaethedig i'r Senedd ar barodrwydd – fel yr amlinellwyd mewn ymateb i Argymhelliad 8 – yn cael ei gyflwyno tan y gaeaf, 2026.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn diwedd mis Chwefror.

Yn gywir,

Joyce Watson Tom Giffard

Joyce Watson Tom Giffard

Cyd-gadeiryddion, Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.